

# Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar gyfer y Bil Ardrethu Annomestig (Rhestrau) (Rhif 2)

Tachwedd 2020

## 1. Cefndir

### Y Bil

1. Cafodd y Bil Ardrethu Annomestig (Rhestrau) (Rhif 2) (y Bil)<sup>1</sup> ei ddarllenriad cyntaf yn Nhŷ'r Cyffredin ar 8 Medi. Fe'i noddur gan y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol.

2. Mae teitl hir y Bil, fel y'i cyflwynwyd, yn nodi diben y Bil, sef:

"Make provision to change the dates on which non-domestic rating lists must be compiled; and to change the dates by which proposed lists must be sent to billing authorities, the Secretary of State or the Welsh Ministers."<sup>2</sup>

3. Diben y Bil hwn yw symud y dyddiad ar gyfer yr ymarfer prisio nesaf ar ardrethi annomestig i 1 Ebrill 2023 ac addasu'r terfyn amser ar gyfer cyflwyno'r rhestrau ardrethu annomestig arfaethedig o 30 Medi i 31 Rhagfyr y flwyddyn cyn ailbrisio.<sup>3</sup>

<sup>1</sup> Bil Ardrethu Annomestig (Rhestrau) (Rhif 2) 2019-21 [Bil 174]

<sup>2</sup> Y Bil Ardrethu Annomestig (Rhestrau) (Rhif 2)

<sup>3</sup> Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer y Bil Ardrethu Annomestig (Rhestrau) (Rhif 2), Medi 2020, paragraff 3



**4.** Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, cwblhaodd y Bil ei hynt trwy Dŷ'r Cyffredin ar 21 Hydref 2020 a chafodd ei ddarlleniad cyntaf yn Nhŷ'r Arglwyddi yr un diwrnod.

#### Biliau blaenorol

---

**5.** Cyflwynwyd Bil blaenorol (Bil 2019)<sup>4</sup> yn Senedd y DU ym mis Mehefin 2019 i ddod â'r dyddiad prisio ymlaen flwyddyn, o 1 Ebrill 2022 i 1 Ebrill 2021. Cymeradwyodd Senedd Cymru gynnig cydsyniad deddfwriaethol mewn perthynas â Bil 2019 ar 9 Gorffennaf 2019.<sup>5</sup> Ni wnaeth y Pwyllgor adrodd ar y Bil, oherwydd bod yr amserlen yn dynn. Serch hynny, methodd Bil 2019 pan addoedwyd Senedd y DU ym mis Medi 2019.

**6.** Ar 18 Mawrth 2020, cyflwynwyd Bil pellach â'r un diben (Bil 2020)<sup>6</sup> yn Nhŷ'r Arglwyddi. Gosodwyd Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol<sup>7</sup> mewn perthynas â Bil 2020 gerbron y Senedd ar 28 Ebrill 2020, a gosodwyd Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol diwygiedig ar 8 Gorffennaf 2020.

**7.** Yng ngoleuni pandemig COVID-19, penderfynodd Llywodraeth y DU wedyn i beidio â bwrw ymlaen â Bil 2020 a phenderfynodd symud dyddiad yr ymarfer ailbriso nesaf i 1 Ebrill 2023, a arweiniodd at gyflwyno'r Bil newydd yn Nhŷ'r Cyffredin ar 8 Medi 2020.

### Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru

**8.** Gosodwyd Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol<sup>8</sup> mewn perthynas â'r Bil gerbron y Senedd ar 9 Medi 2020 gan Rebecca Evans AS, y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd.

**9.** Cytunodd y Pwyllgor Busnes i gyfeirio'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol at Bwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau a'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, gan ofyn iddynt adrodd erbyn 5 Tachwedd.<sup>9</sup>

---

<sup>4</sup> Bil Ardrethu Annomestig (Rhestrau) 2017-19 [Bil 402]

<sup>5</sup> Y Cyfarfod Llawn, 9 Gorffennaf 2019

<sup>6</sup> Bil Ardrethu Annomestig (Rhestrau) (Rhif 2) [HL] 2019-21 [Bil HL 109]

<sup>7</sup> Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Sgorio Annomestig (Rhestrau), Ebrill 2020

<sup>8</sup> Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer y Bil Ardrethu Annomestig (Rhestrau) (Rhif 2), Medi 2020

<sup>9</sup> Y Pwyllgor Busnes, Amserlen ar gyfer ystyried Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer y Bil Ardrethu Annomestig (Rhestrau) (Rhif 2), Medi 2020

Darpariaeth y mae angen cydsyniad y Senedd ar ei chyfer

---

**10.** Mae paragraffau 19 i 21 o'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol yn nodi barn Llywodraeth Cymru ynghylch pa ddarpariaethau yn y Bil y mae angen cydsyniad y Senedd ar eu cyfer.

**11.** Mae'r Memorandwm yn nodi'r canlynol:

“Mae'r Bil yn diwygio Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 ac yn gohirio'r ailbrisiad ardrethu annomestig o 2022 i 2023 yng Nghymru a Lloegr, ac yn addasu'r dyddiad cau ar gyfer cyflwyno rhestrau ardrethu annomestig arfaethedig o 30 Medi i 31 Rhagfyr yn y flwyddyn cyn yr ailbrisiad. Nodir y diwygiadau hyn yng nghymalau 1(2)(b), 1(3)(b) ac 1(4) o'r darpariaethau yn y Bil fel y maent yn berthnasol i Gymru, a gofynnir am gydsyniad mewn perthynas â'r darpariaethau hynny. Nid yw'r cymalau a ddiwygwyd yn cynnwys dim pwerau gwneud is-ddeddfwriaeth i Weinidogion Cymru.”<sup>10</sup>

**12.** Mae Llywodraeth y DU yn cytuno â Llywodraeth Cymru, ond mae hefyd yn nodi bod cymalau 1(1) a 2 yn gofyn am gydsyniad yn ei Nodiadau Esboniadol.<sup>11</sup>

Cymalau 1(2)(b), 1(3)(b) ac 1(4)

---

**13.** Mae cymalau 1(2)(b) ac 1(3)(b) yn diwygio adrannau 41(5) a 52(5) o *Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988* (Deddf 1988) er mwyn symud y gofyniad i baratoi rhestrau ardrethu drafft yng Nghymru a Lloegr o 30 Medi fan bellaf i 31 Rhagfyr fan bellaf cyn i'r rhestr ardrethu newydd ddod i rym.

**14.** Mae cymal 1(4) yn diwygio adran 54A(4)(b) ac adran 54A(5)(b) o *Ddeddf 1988* i ddarparu bod y rhestrau ardrethu nesaf yng Nghymru yn cael eu llunio ar 1 Ebrill 2023 yn hytrach nag 1 Ebrill 2022. Ar ôl 2023, pum mlynedd yw'r cyfnod arferol rhwng ailbrisiadau mewn perthynas â rhestrau Cymru.

**15.** Mae trethi lleol i ariannu gwariant awdurdodau lleol yn eithriadau i'r materion polisi ariannol, economaidd a chyllidol a gedwir yn *Neddf Llywodraeth Cymru 2006* (Deddf 2006).<sup>12</sup> Mae hyn yn golygu bod gan y Senedd gymhwysedd i wneud deddfwriaeth sylfaenol ar bwnc ardrethi busnes.

**16.** Mae'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol yn nodi:

“Mae angen cydsyniad ar gyfer y darpariaethau oherwydd eu bod yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Senedd Cymru i'r graddau eu bod yn cael

---

<sup>10</sup> Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol, paragraff 19

<sup>11</sup> Llywodraeth y DU, *Bil Ardrethu Annomestig (Rhestrau) (Rhif 2), Nodiadau Esboniadol*

<sup>12</sup> *Deddf Llywodraeth Cymru 2006*, paragraff 15 o Atodlen 7A

---

yr effaith o addasu swyddogaethau swyddogion prisio Asiantaeth y Swyddfa Brisio.”<sup>13</sup>

**17.** Fodd bynnag, asiantaeth weithredol a noddir gan Cyllid a Thollau EM yw Asiantaeth y Swyddfa Brisio ac mae swyddogion prisio, fel deiliaid swydd sydd â swyddogaethau o natur gyhoeddus, yn “awdurdod cyhoeddus” o dan baragraff 8(4) o Ran 1 o Atodlen 7B i Ddeddf 2006.

**18.** Mae paragraff 10(1) o Ran 1 o Atodlen 7B i Ddeddf 2006 yn darparu na chaiff darpariaeth mewn Deddf gan y Senedd ddileu neu addasu (neu roi pŵer drwy is-ddeddfwriaeth i ddileu neu addasu) unrhyw swyddogaethau awdurdod cyhoeddus, ac eithrio “awdurdodau Cymreig datganoledig”. Nid yw Asiantaeth y Swyddfa Brisio a Cyllid a Thollau EM wedi’u rhestru yn awdurdodau Cymreig datganoledig o dan Atodlen 9A i Ddeddf 2006.

**19.** Felly, byddai angen cydsyniad Trysorlys EM i newid dyddiad neu amllder ailbrisiadau ardrethu annomestig ac addasu’r dyddiad cau ar gyfer cyflwyno rhestrau ardrethu annomestig arfaethedig drwy gyfrwng Deddf gan Senedd Cymru.

**20.** Mae paragraffau 22 i 24 o’r Memorandwm yn nodi’r rhesymau dros wneud y darpariaethau ar gyfer Cymru yn y Bil.

**21.** Yn ôl y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol:

“Mae’r posibilrwydd o wneud y newid hwn drwy Fil Llywodraeth Cymru yn y dyfodol wedi cael ei ddiystyru, oherwydd nid oes cyfle deddfwriaethol addas o fewn yr amserlen sy’n ofynnol i alluogi Asiantaeth y Swyddfa Brisio i gyflawni’r gwaith prisio angenrheidiol. Hefyd, byddai defnyddio Bil Llywodraeth Cymru diweddarach yn arwain at lai o sicrwydd yn y cyfamser i fusnesau a threthdalwyr eraill yng Nghymru.”<sup>14</sup>

**22.** Mae’r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol hefyd yn nodi:

“Mae’r VOA yn asesu gwerth pob eiddo annomestig gan gyfeirio at ddyddiad penodedig, sef y Dyddiad Prisio Rhagflaenol (AVD). Er mwyn caniatáu ar gyfer y gwaith sy’n angenrheidiol i asesu pob eiddo a llunio rhestrau newydd a fydd yn gymwys o 1 Ebrill 2023, bydd angen pennu 1 Ebrill 2021 fel AVD. Gwneir hyn drwy osod Gorchymyn gerbron y Senedd.”<sup>15</sup>

**23.** Daw’r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol i’r casgliad a ganlyn:

---

<sup>13</sup> Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol, paragraff 20

<sup>14</sup> Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol, paragraff 23

<sup>15</sup> Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol, paragraff 26

---

“Barn Llywodraeth Cymru yw ei bod yn briodol ymdrin â’r darpariaethau hyn ym Mil y DU hwn am resymau amseriad a chydlyniaeth. Mae’r cysylltiad rhwng systemau Cymru a Lloegr ar gyfer gweinyddu’r broses ailbrisio at ddibenion ardrethu hefyd yn ategu’r achos dros fwrw ymlaen â’r darpariaethau yr un pryd ac yn yr un offeryn deddfwriaethol.”<sup>16</sup>

## 2. Trafodaeth y Pwyllgor

**24.** Trafodwyd y Memorandwm yn ein cyfarfod ar 12 Hydref 2020.<sup>17</sup>

### Ein barn

**25.** Nodwn asesiad Llywodraeth Cymru bod angen cydsyniad ar gyfer cymalau 1(2)(b), 1(3)(b) ac 1(4) o’r Bil (fel y’i cyflwynwyd). Rydym hefyd yn nodi barn Llywodraeth y DU bod hefyd angen cydsyniad ar gyfer cymal 1(1) a chymal 2, ond rydym yn cydnabod bod y darpariaethau hyn yn ategol eu natur.

**26.** Rydym hefyd yn nodi rhesymau Llywodraeth Cymru pam y mae’n briodol gwneud darpariaeth i Gymru yn y Bil yn ei barn hi. Wrth wneud hynny, rydym yn cydnabod y byddai angen cydsyniad yr Ysgrifennydd Gwladol i addasu swyddogaethau swyddogion prisio Asianaeth y Swyddfa Brisio drwy Ddeddf gan y Senedd. Nodwn ymhellach y bydd Gorchymyn, yn ddarostyngedig i’r weithdrefn negyddol, yn cael ei osod gan Lywodraeth Cymru i bennu mai 1 Ebrill 2021 yw’r Dyddiad Prisio Rhagflaenol.

**27.** Fodd bynnag, hoffem fynegi ein pryder ynghylch y ffaith i Lywodraeth Cymru nodi, fel rhan o’i chyfiawnhad dros gydsynio i Fil y DU, resymau “cydlyniaeth” a’r “cysylltiad rhwng systemau Cymru a Lloegr ar gyfer gweinyddu’r broses ailbrisio at ddibenion ardrethu” (gweler paragraff 23 uchod). Nid ydym yn credu bod cyfiawnhad o’r fath yn briodol. Fel yr ydym wedi nodi o’r blaen mewn perthynas â’n hystyriaeth o Femoranda Cydsyniad Offeryn Statudol a Datganiadau Ysgrifenedig Rheol Sefydlog 30C<sup>18</sup>, nid oes gan y cyfiawnhad hwnnw hygyrdd yng nghyd-destun datganoli.

**28.** Er ein bod felly’n nodi’r dull a fabwysiadwyd gan Lywodraeth Cymru mewn perthynas â’r Bil hwn, byddem yn croesawu eglurhad ynghylch a fyddai newidiadau tebyg yn y dyfodol yn cael eu gwneud drwy Fil yng Nghymru.

---

<sup>16</sup> Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol, paragraff 27

<sup>17</sup> Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad, 12 Hydref 2020

<sup>18</sup> Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad, Craffu ar reoliadau a wnaed o dan Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018: Adroddiad cynnydd, Chwefror 2019